

Cydlynnydd Prosiect:

Comisiwn Myfyrwyr ar Gyfiawnder Hil (Cymru a'r Alban)

Y Sefydliad	Leaders Unlocked
Lleoliad Gwaith	Gweithio gartref/o bell yn bennaf, gyda rhai gofynion teithio ledled Cymru, Lloegr a'r Alban
Teitl y Swydd	Cydlynnydd Prosiect, Comisiwn Myfyrwyr ar Gyfiawnder Hil (Cymru a'r Alban)
Cyflog	£27,500–£29,000 (ynghyd â Phwysoliad Llundain o 10%), yn dibynnu ar brofiad
Math o Contract	Cyfnod Penodol am 12 mis (gyda photensial i'w adnewyddu)
Oriau	5 diwrnod/ 37.5 awr yr wythnos
Dyddiad Dechrau	Dydd Mawrth 11 Awst 2026

Ynghylch Leaders Unlocked

Mae Leaders Unlocked yn galluogi pobl ifanc i godi eu llais a chael dylanwad cryfach dros y materion sy'n effeithio ar eu bywydau. Ym meysydd addysg, plismona, iechyd a chyfiawnder, rydym yn helpu sefydliadau i gynnwys y bobl sy'n bwysig a llunio penderfyniadau er gwell.

Pwrpas y Swydd:

Mae'r Comisiwn Myfyrwyr ar Gyfiawnder Hil yn rhaglen dan arweiniad pobl ifanc a gyflwynir gan Leaders Unlocked mewn partneriaeth â cholegau addysg bellach. Mae'n darparu llwyfan i fyfyrwyr rannu eu profiadau o gyfiawnder hil mewn addysg, gweithio ar y cyd â'u colegau, a dylanwadu ar systemau a pholisïau ehangach.

Ers 2020, mae'r Comisiwn Myfyrwyr ar Gyfiawnder Hil wedi gweithio gyda cholegau a sefydliadau chweched dosbarth ledled Lloegr i gefnogi myfyrwyr i nodi, dangos

tystiolaeth a mynd i'r afael ag anghyfiawnder ar sail hil yn eu sefydliadau. Mae'r rhaglen wedi gwneud hyn drwy:

Gefnogi **dros 200 o Gomisiynwyr Myfyrwyr** i gasglu a dadansoddi barn a phrofiadau eu cyfoedion drwy ymchwil ac ymgysylltu ar raddfa fawr.

- Rhoi llais i dros **23,000 o fyfyrwyr**, drwy arolygon, cyfweiliadau a gweithgareddau dan arweiniad myfyrwyr.
- Gweithio mewn partneriaeth ag **20 o golegau a sefydliadau chweched dosbarth** i gryfhau'r berthynas rhwng myfyrwyr a'r tîm arwain mewn colegau.
- Cefnogi colegau a myfyrwyr i gyd-greu a gweithredu camau gweithredu ar gyfer newid, **gan arwain at 122 o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt** ar draws meysydd gan gynnwys polisïau sefydliadol, cwricwlwm, hyfforddi staff, ymarfer sefydliadau, diwylliant colegau a datblygu myfyrwyr.

Mae rhaglen Comisiwn Myfyrwyr ar Gyfiawnder Hil yng Nghymru a'r Alban yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon ac fe'i cyflwynir trwy gefnogaeth Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Gan weithio'n agos gyda'r Rheolwr Prosiect, bydd y Cydlynnydd Prosiect yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflwyno'r rhaglen o ddydd i ddydd, wrth gefnogi ymgysylltiad effeithiol â myfyrwyr a cholegau, cydlynu gweithgareddau'r rhaglen, a sicrhau bod arferion diogelu a moesegol yn cael eu hymgorffori drwyddi draw.

Swydd-ddisgrifiad

Rôl

Bydd y Cydlynnydd Prosiect yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi cyflwyno'r rhaglen ar lefel myfyrwyr a phartneriaid coleg, gan gydweithio'n agos â'r Rheolwr Prosiect i sicrhau bod grwpiau Comisiwn Myfyrwyr yn cael eu cefnogi, bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn dda, a bod cyfranogiad yn ddiogel, yn gynhwysol ac yn ystyrlon.

Bydd y cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys:

- Arwain y gwaith o recriwtio, cydlynu a darparu cefnogaeth barhaus i grwpiau Comisiwn Myfyrwyr yng Nghymru a'r Alban.
- Gweithio gyda phartneriaid coleg i gefnogi myfyrwyr yn eu rolau comisiynydd a sicrhau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol.
- Cysylltu â rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid lle bo'n briodol i gefnogi cyfranogiad a phresenoldeb.
- Cydlynu presenoldeb myfyrwyr mewn cyfarfodydd ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan gynnwys trefniadau amserlennu, teithio ac ymarferol.
- Helpu i lunio agendâu a hwyluso cyfarfodydd a gweithdai grŵp y Comisiwn Myfyrwyr.

- Arwain ar egni, cydlyniant a lles grwpiau o bobl ifanc, gan gynnwys cadw mewn cysylltiad â nhw rhwng cyfarfodydd a chefnogi cyfranogiad cynhwysol.
- Casglu cynnwys, myfyrdodau a diweddariadau o bob rhan o'r prosiect i'w rhannu gyda thîm cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol Leaders Unlocked.
- Cefnogi tasgau ysgrifennu a data, gan gynnwys cyfrannu at adroddiadau, allbynnau myfyrwyr a dysgu o weithgareddau prosiect.
- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Prosiect i gefnogi diogelu, rheoli risg ac arferion moesegol wrth gyflwyno'r rhaglen.

Bydd y rôl hon yn cynnwys cyswllt rheolaidd â phobl ifanc, staff colegau a chydweithwyr ar draws Leaders Unlocked, a bydd yn chwarae rhan ganolog i sicrhau bod y myfyrwyr yn profi rhaglen sydd o ansawdd uchel, wedi'i threfnu'n dda ac yn wirioneddol dan arweiniad ieuencid.

Sylwch fod y datganiad hwn er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n rhan o gontract. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ac efallai y byddwn yn gofyn i chi ymgymryd â dyletswyddau a thasgau eraill o bryd i'w gilydd. Mae'r rôl hon yn amodol ar wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Manyleb y person:

Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau

Rydym yn edrych i recriwtio unigolyn gyda'r profiad, y wybodaeth a'r sgiliau canlynol:

Hanfodol

- Sgiliau cynllunio a threfnu cryf.
- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu cryf, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Angerdd am weithio gyda phobl ifanc ac am gyfiawnder cymdeithasol.
- Profiad proffesiynol blaenorol mewn maes gwaith perthnasol, megis y sector ieuencid neu'r sector addysg.
- Unigolyn brwdfrydig a rhagweithiol iawn sy'n gallu defnyddio ei fenter ei hun a chymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb dros y gwaith a neilltuwyd iddo.
- Cymhwysedd technegol da wrth ddefnyddio Microsoft Word a PowerPoint a systemau galwadau fideo e.e. Zoom a Teams.
- Sensitifrwydd i amrywiaeth a'r gallu i weithio'n effeithiol gyda phobl o amrywiaeth o gefndiroedd.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a phrosesau diogelu, yn enwedig mewn perthynas â phobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dymunol

- Addysg hyd at lefel gradd neu gyfwerth.
- Profiad o weithio ar ymgyrchoedd/prosiectau gweithredu cymdeithasol.
- Profiad o gyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu.

Sut i wneud cais:

Anfonwch e-bost at Alev Zahir i ofyn am ffurflen gais, alev@leaders-unlocked.org neu ewch i'r dudalen swyddi gwag ar ein gwefan: <https://leaders-unlocked.org/current-opportunities/>

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **Dydd Llun 29 Mehefin 2026 am 1yp.**

Rydym yn bwriadu cynnal cyfweiliadau **Dydd Mawrth 7 neu Dydd Iau 9 Gorffennaf 2026.** (Peidiwch â phoeni os nad ydych ar gael ar y dyddiadau hyn, byddwn yn gweithio gyda chi i ddod o hyd i ddyddiad arall os oes angen).

Darllen pellach:

I weld adroddiadau'r Comisiwn Myfyrwyr ar Gyfiawnder Hil gan gynnwys ein hadroddiad effaith 5 mlynedd, ewch i'r tab 'Addysg/Education' ar y dudalen hon: <https://leaders-unlocked.org/publications/>

Unrhyw gwestiynau?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost at alev@leaders-unlocked.org

Pob lwc, edrychwn ymlaen at glywed gennych!